# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd J A Gebbie**

**Ward: Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr**

**Plaid: Llafur a Chydweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Ebrill 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**<br><br>Cefais fy ethol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli'r Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr ym mis Mai 2022. Cefais fy ethol yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac rwy'n dal y portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles. Rwyf hefyd wedi cael fy mhenodi'n Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, gyda chyfrifoldebau dros sicrhau bod y ddarpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei hintegreiddio ar draws y rhanbarth. Fe'm penodwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac rwy'n ymgymryd â rôl Cynrychiolydd Gweithlu Cymru, gyda chyfrifoldebau dros negodi telerau ac amodau tâl ar draws 13 o grwpiau cyflogwyr.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi 97 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, fy nghyfrifoldebau a'm gweithgareddau ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:<br><br><u>Y Cynghorydd Jane Gebbie</u> |
| **<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**<br><br>Rwy'n llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol a benodwyd i ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ac fe'm hetholwyd gan gyfoedion i aros yn Gadeirydd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Byddwch yn ymwybodol fy mod wrthi'n cefnogi'r cais cynllunio ar gyfer yr ysgol i sicrhau bod ein darpariaeth addysg ym Mynydd Cynffig yn addas i addysgu ein plant yn y dyfodol, o ystyried cyflwr amhriodol ein safle cynradd. |

| |
|---|
| Rwyf hefyd yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Gymunedol Talbot sydd wedi cael blwyddyn heriol yn ariannol, gan sicrhau bod gennym ddigon o ymddiriedolwyr i fodloni gofynion statudol i fasnachu.<br><br>Mae'r Talbot yn lleoliad sy'n agored i'r gymuned ac mae'n cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i oedolion a phlant fel ei gilydd. Rwy'n ffodus iawn fy mod wedi cael fy ngwahodd i amrywiol sefydliadau ar gyfer trafodaethau ac i fynychu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal, ac mae pob un ohonynt yn ddifyr ac yn aml yn procio'r meddwl o ran amgylchiadau unigol pawb. |
| **<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**<br><br>Mae Cinio Nadolig wedi bod yn llwyddiant ysgubol oherwydd rhoddion hael gan fusnesau lleol, cyllid grant, ac amser trigolion lleol ac aelodau a ymgymerodd â dyletswyddau plicio llysiau, pacio anrhegion a bagiau nwyddau, porthor cegin, a gyrwyr danfon. Mae'r rhestr o ddyletswyddau a gyflawnwyd gan wirfoddolwyr yn ddiddiwedd a hoffwn ddiolch iddynt am sicrhau bod 750 o brydau am ddim wedi cael eu dosbarthu i deuluoedd ar draws y fwrdeistref sirol ar Noswyl Nadolig gan sicrhau nad oedd neb yn cael ei anghofio. |
| **<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**<br><br>Wrth ymgymryd â fy rôl fel Cynrychiolydd y Gweithlu, fi yw Llefarydd y Gwasanaethau Tân ac Achub. Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r holl randdeiliaid ar y daith o wella yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol ar Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.<br><br>Roedd yn anrhydedd mawr i mi gael fy ngwahodd i siarad yn lansiad y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer cydweithwyr yn y Senedd ar ôl bod yn rhan o'r gwaith o lunio'r ddeddfwriaeth hon ers blynyddoedd lawer, a chredaf y bydd gweithredu'r Ddeddf o fudd mawr i Gymru. |
| **Y Cynghorydd Jane Gebbie:** **Dyddiad: 24/07/2024** |